Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n cynnig y nifer fwyaf cynhwysfawr yng Nghymru o Derfynellau Mynediad Cyhoeddus i gwsmeriaid eu defnyddio. Mae hynny'n sicrhau y gall trigolion lleol gael mynediad hawdd at gyfleusterau cyfrifiadur ardderchog yn ddi-dâl yn eu cymunedau eu hunain. Ond mae'r lefel o berfformiad a gyflawnir yn amlwg yn is na mewn llawer o Awdurdodau Lleol cymharol yng Nghymru, ac yn parhau'n fater mae angen ei wella. Fodd bynnag, nodwch os gwelwch yn dda bod y perfformiad is wedi'i gysylltu, yn y bôn, gyda'r nifer uchel o derfynellau sydd ar gael gan Wasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol, a'r ddarpariaeth Wi-Fi ar gael nawr ar bob safle llyfrgell. Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn gweithio nawr gydag Adran Technoleg Gwybodaeth CBSC i gael trefn adrodd ffurfiol ar gyfer Wi-Fi er mwyn adrodd ffigyrau Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2019/20.

Cyflenwi Ceisiadau

Yn ystod 2018/19 cafodd Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol 64,237 o geisiadau am deitlau penodol o stoc, sy'n gynnydd o 1% o'r flwyddyn cynt.

Lefelau Staffio a Chymwysterau Staff

Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol yn cyflawni'r safon hon yn rhannol. Mae'r lefelau staffio wedi parhau'n gyson yn ystod 2018-19 o'i gymharu gyda manylion 2017/18, ond rhagwelir y bydd cynigion cyllidebol y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn effeithio ar y gwasanaeth yn ystod 2019/20. Mae arweinwyr cymwys mewn swyddi.

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn parhau gyda'i fuddsoddiad mewn datblygu'r gweithlu, gyda gostyngiad bychan o 0.1% mewn amser.

Oriau Agor

Ni fu gostyngiad mewn oriau agor llyfrgelloedd sefydlog yn ystod 2018/19, ac oherwydd effeithiolrwydd Polisi Tywydd Anffafriol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd, ni fu'n rhaid cau unrhyw safleoedd heb drefnu hynny ymlaen llaw. Mae hyn yn dystiolaeth o agwedd broffesiynol ac ymroddiad y cyflogaeth a'u rheolwyr.

Astudiaethau Achos

Cafodd pedair astudiaeth achos ar effaith a gwerth Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol eu cyflwyno a'u hasesu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r astudiaethau achos yn adlewyrchu'r effaith a gafodd y llyfrgell ar unigolyn neu grŵp o unigolion trwy gydol y flwyddyn. Roedd y rheiny'n cynnwys:

1. Ymgysylltiad Pontio'r Cenedlaethau Ffrindiau Dementia – ehangu prosiect sy'n bodoli'n barod ar gyfer sesiynau darllen a barddoniaeth gyda phreswylwyr cartrefi gofal lleol sydd â chyflyrau'n gysylltiedig â dementia. Aeth plant ysgol lleol i ymweld â phreswylwyr a rhyngweithio gyda hwy. Roedd y prosiect yn fuddiol i'r ddwy ochr, gan wella sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu a llythrennedd.
2. Cefnogaeth i Deulu – rôl y llyfrgell mewn darparu lle croesawus i un teulu gael mynediad at adnoddau a rhannu gweithgareddau na fyddent fel arall yn gallu eu fforddio.
3. Cynllun RecRock – partneriaeth gyda menter gymdeithasol cerddoriaeth roc adloniant yn Llyfrgell Bargod, sy'n galluogi aelodau o'r gymuned i gymryd rhan mewn amrediad o weithgareddau wedi'u seilio ar gerddoriaeth. Cafodd y rhai fu'n cymryd rhan fudd trwy wella eu hunan-barch ac iechyd meddwl, yn ogystal â dysgu sgiliau newydd.
4. Darparu Cyfleoedd Dysgu - hwyluso gwaith gwasanaethau partner ar draws Caerffili, gyda gweithgareddau dysgu i bobl ifanc nad oeddent yn gallu gweithio mewn sefyllfa ysgol ffurfiol. Mae'r llyfrgelloedd yn amgylchedd dysgu diogel ac yn lle i addysgu, gyda phroffesiynoldeb ac ymgysylltiad staff y llyfrgell o gymorth i atgyfnerthu dysgu a datblygu sgiliau.

Cyfraniad at Themâu Blaenoriaeth Strategol y Cyngor

Fel rhan o'r wybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer 2018/19, roedd datganiad ar gyfraniad Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol tuag at nifer o Strategaethau Lywodraeth Cymru a meysydd blaenoriaeth yr Awdurdod Lleol. Dywed y Grŵp Cyfeirio Safonau:

'Mae Caerffili yn rhoi datganiad manwl gan nodi'r synergedd rhwng gweithgareddau'r gwasanaeth llyfrgelloedd a dau Amcan Lles y Cyngor, a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae themâu allweddol yn canolbwyntio ar wella cyfleoedd addysg, galluogi cyflogaeth, cefnogi ffyrdd o fyw iach, a chefnogi pobl i fyw'n annibynnol a gwella lles.'

Mae'r astudiaethau achos a'r datganiad strategol i'w gweld yn llawn yn **Atodiad 3(B)**.

Casgliad

- 5.9 Mae Asesiad Safonau Blynyddol Llywodraeth Cymru o Wasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili 2018/19 wedi cael ei asesu gan Banel Cyfeirio Cymru.
- 5.10 Barnwyd bod Gwasanaeth Llyfrgelloedd Caerffili yn cyflawni pob un o'r 12 Hawl Craidd, yn ateb 8 Dangosydd Ansawdd yn llawn a 2 Ddangosydd Ansawdd yn rhannol, a heb fethu unrhyw ddangosydd yn llwyr.
- 5.11 Cafodd y pedair astudiaeth achos, yn asesu effaith defnyddio'r llyfrgell ar fywydau pobl, eu harfarnu a'u cytuno gan yr Asesydd.
- 5.12 Roedd datganiad manwl yn tynnu sylw at y synergedd rhwng gweithgareddau'r gwasanaeth llyfrgelloedd ac Amcanion Lles y Cyngor a hefyd nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Cafodd y datganiad ei arfarnu a'i gytuno gan yr Asesydd.

6. RHAGDYBIAETHAU

- 6.1 Ni wnaed unrhyw ragdybiaethau yn yr adroddiad hwn.

7. CYSYLLTIADAU GYDA PHOLISIŶAU PERTHNASOL Y CYNGOR

- 7.1 Uchelgeisiau a Rennir 2019-2022
Cynllun Gwella'r Gyfadran Addysg 2018-2019
- 7.2 **Cynllun Corfforaethol 2018-2023.**

Mae adroddiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar Wasanaeth Caerffili am 2018/10 yn disgrifio'r *Cydymffurfriad gyda Hawliau Craidd* a sut y mae'n cyfrannu at / yn effeithio ar yr Amcanion Lles Corfforaethol (gweler **Atodiad 4 - Manylion Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Caerffili 2018/19**).

Mae *Dangosyddion Ansawdd* Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Caerffili hefyd yn disgrifio pwysigrwydd ac ethos y gwasanaeth llyfrgelloedd. Mae'n edrych ar adeiladau, llefydd mewn llyfrgelloedd, stoc y llyfrgell, darpariaeth technoleg gwybodaeth a staff cyrff partner er mwyn parhau i ddarparu gwell addysg i bob preswlydd (**Atodiad 4**).

Amcan 1 – Gwella cyfleoedd addysg i bawb

Gellir ymuno'n ddi-dâl ac mae'n agored i bawb.

Sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwys ar gael i gynorthwyo.

Darparu lle ffisegol diogel, deniadol mae modd cael mynediad iddo, gyda staff yno ac oriau agor addas.

Darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn Gymraeg.

Gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.

Amcan 2 – Galluogi Cyflogaeth

Benthyca llyfrau'n ddi-dâl a darparu mynediad di-dâl at wybodaeth, yn cynnwys adnoddau ar lein sydd ar gael 24 awr y dydd.

Darparu defnydd di-dâl o'r rhyngwrwd a chyfrifiaduron, yn cynnwys Wi-Fi.

Amcan 5 – Creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw yn unol â'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Darparu mynediad at amrediad o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, cymryd rhan yn gymunedol a diwylliant a hamdden.

Amcan 6 - Cynorthwyo dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu lles

Darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau gyda gofynion arbennig.

Gweithio gydag amrediad o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaedd newydd ac amrywiol, gan alluogi mwy o bobl i gael budd o'r gwasanaethau.






8. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

8.1.1 Mae'r Adroddiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Caerffili yn amlweddog a chynhwysfawr ac yn cyfrannu at bob un o themâu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015:

- Cymru lewyrchus
 - Cymru gydnerth
 - Cymru iachach
 - Cymru sy'n fwy cyfartal
 - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
 - Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
-
- Mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at ddatblygu poblogaeth gyda sgiliau ac wedi'i haddysgu'n dda.
 - Gwasanaeth / system lyfrgell sydd wedi'i chysylltu gyda'i gilydd, sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid.
 - Gwasanaeth di-dâl i alluogi rhai mewn cymdeithas i gyflawni eu potensial, beth bynnag fo eu cefndir neu eu hamgylchiadau (yn cynnwys eu hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
 - Gwasanaeth llyfrgelloedd sy'n cynorthwyo a chefnogi lles ffisegol a meddyliol pobl ac yn caniatáu ystyried dewisiadau rhydd a ffyrdd o ymddwyn.
 - Parhau i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd i bawb, sy'n gydlynol, deniadol, diogel, hyfyw ac wedi'i gysylltu'n dda.
 - Gwasanaeth llyfrgelloedd sy'n parhau i hyrwyddo a diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac yn annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau a chwaraeon a hamdden.
 - Gwasanaeth llyfrgelloedd sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella lles

economaid, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn cymryd i ystyriaeth sylwadau a barn trigolion o ran a yw hi'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesi personol ac ehangach.

Mae'r Adroddiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2018-19 yn rhoi amlinelliad o sut mae'n gyson gyda'r pum ffordd o weithio fel y diffinnir yn yr egwyddor datblygiad cynaliadwy yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

	Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)	Mae Llyfrgelloedd yn Darparu
	Cynllunio tymor hir i gyflawni targedau a dyheadau	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth Llyfrgelloedd sydd wedi'i gynllunio a'i reoli'n broffesiynol a'i dargedu at gefnogi trigolion a chymunedau Bwrdeistref Sirol Caerffili. • Gwasanaeth benthyca llyfrau'n ddi-dâl, gydag amrediad o deitlau a dyfnder aeddfed o adnoddau. • Mynediad di-dâl at y Rhyngwyd. • Mynediad di-dâl at Wi-Fi. • Darpariaeth cyfrifiadur personol cynaliadwy.
	Integreiddio sut byddwn yn gweithio ac yn darparu	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnig Llyfrgell wedi'i hintegreiddio a'i rheoli'n dda, yn agored i bawb. • Gweithio'n agos gydag amrediad eang o bartneriaid, rhanddeiliaid a meysydd gwasanaeth sy'n cyfrannu atom ni, yn cynnwys Gwasanaethau Cwsmer a Hamdden. • Cerdyn mynediad 'Clyfar' wedi'i integreiddio, ar y cyd rhwng y Llyfrgelloedd a Hamdden. • Dull Cymru-gyfan o weithredu ar gyfer rheoli ysgolion yn lleol, Catalog Gwe-Lyfrgell a set o e-adnoddau.
	Cynnwys staff a phreswylwyr mewn datblygu gwasanaethau a'r heriau sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu deunyddiau hyfforddi / cefnogi i staff a chwsmeriaid • Rhaglen flynyddol o ymgynghori cyhoeddus trwy gyfrwng Arolygon o Blant ac Oedolion sy'n Ddefnyddwyr Llyfrgelloedd Cyhoeddus • Defnyddio mwy ar adborth rheolaidd trwy gyfrwng y Cyfryngau Cymdeithasol • Arfarniadau ac ymgynghori â staff arlein.
	Cydweithio gyda phartneriaid ac eraill i ddarparu'r gwasanaethau gorau yn canolbwyntio ar y gymuned	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda grwpiau a sefydliadu sy'n hyrwyddo'r un gwerthoedd i gefnogi trigolion • Cydweithio i ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol i drigolion, gyda'r Tîm Gwasanaethau Cwsmer a nifer o Adrannau eraill o'r Cyngor. • Cydweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig gyfan i gynnig y gwasanaethau gorau sydd modd i gwsmeriaid, o fenthyca rhwng awdurdodau i gaffael adnoddau ar y cyd i gael y gostyngiad pris gorau.



Atal gwastraffu deunyddiau a gwneud gwell defnydd o sgiliau ein gweithlu presennol

- Defnyddio teclynnau hyfforddi ar lein, llai o bapur wedi'i argraffu neu gostau teithio ac amser wrth fynd i leoliadau cyrsiau
- Strategaeth ymatebol ar gyfer y gweithlu a datblygiad
- Rhannu costau hyfforddiant a digwyddiadau gyda phartneriaid Cyngor Lleol, i gynorthwyo i gael y budd mwyaf fesul y pen
- Gwasanaeth di-dâl ar gyfer benthyca a cheisiadau llyfrau a defnyddio stoc mewn ffyrdd economaidd, i ateb anghenion cwsmeriaid gyda chyn lleied ag y bo modd o gost neu wastraff.

9. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

9.1 Nid oes angen Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar hyn o bryd. Materion ar gyfer gwybodaeth yw'r rhai yn yr adroddiad hwn, yn ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am berfformiad yr Awdurdod o ran Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

10. GOBLYGIADAU ARIANNOL

10.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

11. GOBLYGIADAU PERSONÉL

11.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

12. YMGYNGHORI

12.1 Mae'r adroddiad yn adlewyrchu barn y rhai yr ymgynghorwyd â hwynt.

13. PŴER STATUDOL

13.1 Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.

Awdur: Karen Pugh – Uwch Reolwr Gweithredol Gwasanaethau Llyfrgell.

Ymgynghorwyd
â'r canlynol:

Cyng. Ross Whiting, Aelod Cabinet dros Ddysgu a Chyflawni
Cyng. Teresa Parry, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg
Cyng. Carol Andrews, Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg
Christina Harrhy, Prif Weithredwr
Richard Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau
Corfforaethol

Sue Richards – Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg
Mark S Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau
Dave Street – Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau
Cymdeithasol a Thai
Robert Tranter, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro
Lynne Donovan, Pennaeth Gwasanaethau Pobl
Steve Harris, Pennaeth Gwasanaethau Cyllid a Swyddog Adran 151
Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi, Cydraddoldeb, y Gymraeg ac
Ymgynghori
Ros Roberts – Rheolwr Gwella Busnes
Keri Cole – Prif Swyddog Addysg

Atodiadau:

- Atodiad 1 Pa Mor Dda yw Eich Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus – Canllaw Cryno i'r Fframwaith Mesur ac Asesu Perfformiad Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.
- Atodiad 2 Adroddiad Asesiad Terfynol Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili 2018-19
- Atodiad 3(B) Astudiaethau Achos a Naratif Strategol Ychwanegol Manylion Safonau Blynyddol 2018-19
- Atodiad 4 CyMAL - Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru Caerffili - Fframwaith 6, 2018-19

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



Pa mor dda yw eich gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus?

Canllaw cryno i'r fframwaith mesur ac asesu perfformiad llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru

Dyma ganllaw esboniadol byr i awdurdodau lleol, sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol a strategol i ddarparu gwasanaethau llyfrgell gyhoeddus yng Nghymru, yn ogystal ag i drigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r ddogfen yn amlinellu cyfrifoldeb yr awdurdod lleol ac yn esbonio sut mae Llywodraeth Cymru yn asesu perfformiad y gwasanaethau llyfrgell fel rhan o'i rhaglen barhaus i wella perfformiad y gwasanaethau cyhoeddus.

Y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru

Mae traddodiad hir a chlodwiw yng Nghymru o ddarparu gwasanaeth llyfrgell yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr. Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn hyrwyddo cyfleoedd a dysgu o bob math o fewn cymunedau, yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol ac economaidd, ac yn cefnogi pob math o weithgarwch ymhlith grwpiau ac unigolion. Mae llyfrgelloedd yn berthnasol i bobl o bob oedran ac i bob diddordeb ac angen. Mae'r gwasanaeth llyfrgell ymhlith y mwyaf poblogaidd a mwyaf gwerthfawr o blith holl wasanaethau'r awdurdodau lleol, ac mae trigolion yn ymateb yn anffafriol iawn i unrhyw ostyngiad yn narpariaeth ac ansawdd y gwasanaeth hwnnw.

Gwasanaethau craidd

Dyma elfennau craidd gwasanaeth llyfrgell:

- darparu mynediad addas a phriodol i'r gwasanaeth (o ran yr adeiladau ac ar-lein);
- darparu gwasanaethau i'r bobl hynny mewn cymdeithas sydd ag anghenion arbennig (deunyddiau arbennig, cyfarpar arbennig a gwasanaethau cludo arbennig);
- darparu ystod addas o ddeunyddiau darllen a chyflwyno gwybodaeth mewn cyfryngau traddodiadol a modern, gan adlewyrchu ieithoedd y cymunedau ac anghenion y gwahanol grwpiau oedran;
- sicrhau bod lefelau buddsoddi mewn deunyddiau, staff ac adeiladau yn rhai digonol;

- sicrhau bod ymateb i safbwyntiau ac anghenion defnyddwyr yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli a'i ddatblygu.

Mesur ansawdd – pa mor dda yw eich llyfrgell chi?

Mae'n ddyletswydd statudol ar bob awdurdod llyfrgell o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 i ddarparu gwasanaeth 'cynhwysfawr ac effeithlon' i'w drigolion. Gellir mesur hyn mewn nifer o ffyrdd; un ffordd yr adborth gan ddefnyddwyr y llyfrgell – a ydynt yn cael yr hyn a ddymunant, o fewn amser rhesymol, trwy'r dull mwyaf addas ac mewn manau gwasanaeth sy'n hygyrch a chyfleus?

Yn ogystal, mae'n rhaid i ddefnyddwyr ac awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian o'u gwasanaethau. Gellir mesur hyn, er enghraifft, trwy gymharu perfformiadau rhwng awdurdodau. Gellir cymharu gwybodaeth megis nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a nifer y benthyciadau, yr ymweliadau a'r ceisiadau y mae aelodau o'r cyhoedd yn eu gwneud, a'u cymharu mewn cysylltiad â lefel buddsoddiad pob awdurdod lleol yn y gwasanaeth.

Y fframwaith ansawdd

Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb statudol am y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Mae wedi bod yn casglu gwybodaeth ac yn monitro perfformiad ers 2002, pan gyhoeddodd ei fframwaith cyntaf o safonau i lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru. Mae'r fframwaith yn ceisio sicrhau bod y lefel gwasanaeth yn fwy cyson ledled Cymru yn ogystal â nodi hawliau defnyddwyr yn glir.

Cafwyd adolygiadau rheolaidd o'r fframwaith, ac mae'r dangosyddion ansawdd wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu newidiadau i'r ffyrdd y mae gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn cael eu defnyddio a'u darparu. Y fframwaith presennol yw'r chweched, a mae'n berthnasol o fis Ebrill 2017 hyd at fis Mawrth 2020.

Mae gwasanaethau llyfrgell yn cyfrannu at amryw o ganlyniadau Llywodraeth Cymru megis llythrennedd, sgiliau a dysgu, cynhwysiant digidol, tlodi, iechyd a lles. Mae'r ddarpariaeth mewn llyfrgelloedd yn rhychwantu'r canlyniadau hyn, gan gynnig ystod o wasanaethau sy'n aml yn cefnogi dau ganlyniad neu ragor ar yr un pryd.

Hefyd mae gwasanaethau llyfrgelloedd yn cefnogi pedair colofn Llywodraeth Cymru; maent yn ffynnu ac yn ddiogel, iachus ac egniol, yn rhoi bri i uchelgais a dysg ac yn unedig a chysylltiedig. Canlyniad dymunol y chweched fframwaith yw bod

llyfrgelloedd yn cynnig yr holl wasanaethau a chyfleusterau a restrir yn hawliau craidd. Er mwyn asesu ansawdd y gwasanaethau a'r cyfleusterau hyn, rydym wedi disgrifio nifer o ddangosyddion perfformiad a mesurau effaith sy'n seiliedig ar ganlyniadau, a hynny er mwyn dangos sut mae pobl ar eu hennill yn sgil defnyddio gwasanaeth llyfrgell.

Mae'r dangosyddion ansawdd wedi cael eu diffinio drwy ddefnyddio ystadegau sydd eisoes yn cael eu casglu cyn belled ag y bo modd, ac yn unol â safonau rhyngwladol. Mewn rhai achosion (er enghraifft, darparu deunydd darllen diweddar), mae targedau wedi cael eu gosod, yn seiliedig ar lefel briodol i gymharu perfformiad ledled Cymru, a bydd disgwyl i awdurdodau llyfrgell gyflawni'r rhain dros gyfnod o dair blynedd. Mewn achosion eraill (er enghraifft, bodlonrwydd cwsmeriaid), nid yw targedau yn briodol, a bydd cymharu â blynyddoedd blaenorol yn monitro gwelliannau mewn gwasanaethau.





Beth a ddisgwylir gan awdurdodau llyfrgell?

Oherwydd mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw gwasanaethau llyfrgell, dylent adlewyrchu blaenoriaethau lleol, er eu bod yn cael eu darparu o fewn cyd-destun statudol. Ni fydd llyfrgelloedd o reidrwydd yn gallu cyrraedd y lefelau uchaf o ran perfformiad ym mhob maes, ond mae disgwyl iddynt gyflawni cynifer o'r targedau ag y bo modd ac i geisio gwella yn y meysydd hynny lle mae perfformiadau yn wannach. Dylai awdurdodau hefyd gymharu eu perfformiad ag eraill yng Nghymru a rhannu arferion gorau er mwyn sicrhau gwelliannau.

Yn ogystal, gofynnir yn benodol i awdurdodau lleol ystyried a sicrhau bod eu gwasanaethau llyfrgell yn cyfrannu'n llawn at gyflawni amcanion corfforaethol cyffredinol, a bod y gwasanaethau wedi'u cysylltu bob amser â rhaglenni gwaith ac agendâu polisiâu allweddol amrywiol yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ble mae gwasanaethau llyfrgelloedd yn cael eu darparu gan ymddiriedolaeth neu gorff tebyg, mae'r cyfrifoldeb penodol yn aros gyda'r awdurdod lleol.

Sut mae perfformiad yn cael ei asesu?

Mae tri yn cyfrannu at y broses asesu:

- y cyhoedd, sy'n ymateb i holiaduron defnyddwyr ar sail eu profiad o'r gwasanaeth, ac a ddylai fedru cael mynediad at adroddiadau a gyhoeddwyd am eu gwasanaethau llyfrgell;
- yr awdurdod llyfrgell, sy'n gorfod craffu ar berfformiadau'r gwasanaeth llyfrgell ac ystyried yr asesiad a roddir iddo gan Lywodraeth Cymru; a
- Llywodraeth Cymru.

Mae awdurdodau llyfrgell yn cyflwyno ffurflen flynyddol ar ddechrau pob haf i Lywodraeth Cymru, gan nodi perfformiadau yn erbyn yr hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd ar gyfer y flwyddyn flaenorol. I ystyried y ffurflenni, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio panel o aseswyr sy'n dod o lywodraeth leol, gyda chefnogaeth arbenigwyr eraill. Mae awdurdodau llyfrgell yn cael adroddiadau adborth ysgrifenedig sy'n cynnwys barn annibynnol, asesiad a chynghor yn ystod yr hydref bob blwyddyn; caiff yr adroddiadau hyn eu cyhoeddi hefyd ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru ac mae'n gael i aelodau'r cyhoedd.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Gofynnir i awdurdodau llyfrgell ystyried yr adroddiadau adborth (yn ôl yr arferion 'craffu' lleol) a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a nodwyd. Gallant wneud hyn drwy gymryd camau megis gwneud buddsoddiad ychwanegol, ailgyfeirio cyllid neu drwy fabwysiadu arferion rheoli sy'n fwy effeithiol ac effeithlon.

Os oes gan Lywodraeth Cymru bryderon am unrhyw wasanaeth llyfrgell, er enghraifft os na chaiff y camau priodol eu cymryd a bod ansawdd yn parhau i ddirywio, mae sawl peth y gall ei wneud:

- Bydd yn gallu cynnig cymorth i awdurdod nad yw'n perfformio i lefel foddhaol, sef rhoi cyngor ar gynnal rhaglen gwella y cytunwyd arni.
- Bydd diystyru cyngor, neu ymateb yn annigonol, i'r gofynion yn golygu gwaharddiad o'r arian ychwanegol sydd ar gael i wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru.
- Yn y pen draw, gall Llywodraeth Cymru dynnu'r pŵer i redeg gwasanaeth llyfrgell oddi ar awdurdod llyfrgelloedd, er enghraifft os yw perfformiad yn erbyn y dangosyddion ansawdd yn parhau i fod yn wael, a bod anfodlonrwydd y cyhoedd yn dod yn amlwg.

Beth oedd effaith gosod safonau i'r gwasanaethau llyfrgell?

Ers 2002, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi ymateb i'r heriau, ac mae gwelliannau wedi cael eu cofnodi yn yr holl wasanaethau llyfrgell. Mae rhai awdurdodau wedi gwneud mwy o gynnydd nag eraill, yn ôl amgylchiadau penodol. Nid ystyriwyd bod angen gweithredu unrhyw un o'r camau a nodir yn y tri phwynt uchod. Mae gwelliannau cyffredinol arwyddocaol wedi bod yn lefelau buddsoddi llawer o awdurdodau, a hynny o ran deunyddiau, darparu technoleg gwybodaeth, yn yr adeiladau ac yn yr oriau agor. Mae llawer o wasanaethau llyfrgell hefyd wedi mabwysiadu dulliau gwell o ddarparu gwasanaethau. Mae barn y cyhoedd am wasanaethau llyfrgell yn parhau i fod yn uchel ledled Cymru.

Yr awdurdodau hynny sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf arwyddocaol yw'r rheiny sydd wedi cynyddu lefel y buddsoddi yn eu gwasanaethau llyfrgell, yn enwedig o ran y gronfa prynu llyfrau ac adnoddau gwybodaeth ac o ran y cyfarpar a'r adeiladau, ac sydd hefyd wedi gwella eu dull o reoli'r gwasanaethau. Mae'r cyfuniad dulliau hwn wedi cael effeithiau buddiol ar berfformiadau. Yr her ar gyfer y tair blynedd nesaf yw cynnal y lefelau gwasanaeth mewn hinsawdd o doriadau mewn gwariant cyhoeddus yn ogystal â pharhau i wella ansawdd y gwasanaeth a'i fanteision i bobl Cymru.

Rôl yr is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD)

MALD yw is-adran bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae'n cynghori'r Gweinidog priodol ar faterion polisi yn ogystal â rhoi cyngor a chefnogaeth i'r sector llyfrgell. Mae'n dosbarthu cyllid grant Llywodraeth

Cymru i wasanaethau llyfrgell ar gyfer prosiectau arloesol, gan gynnwys moderneiddio adeiladau llyfrgelloedd. Mae ganddo rôl hefyd yn cefnogi ac yn datblygu safonau llyfrgelloedd ac arbenigedd a sgiliau eu staff. Mae staff a chynrychiolwyr MALD hefyd yn cynghori awdurdodau lleol a grwpiau buddiant eraill ar wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus ac ar fframwaith ansawdd safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru.



Gwybodaeth bellach

Mae gwybodaeth gyfredol am fframwaith ansawdd safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, www.llyw.cymru

Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD)

Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UR

ebost: mald@llyw.cymru Ffôn: 0300 062 2112

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Caerffili

Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Caerffili i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Mae Caerffili yn cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn erbyn hyn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Caerffili 8 ohonynt yn llawn a 2 ohonynt yn rhannol.

Mae Caerffili wedi parhau i gyflawni'n effeithiol yn erbyn y fframwaith safonau yn 2018/19, gan barhau i berfformio'n gryf mewn meysydd allweddol, er bod rhywfaint o dystiolaeth o ddirywiad yn y defnydd a wneir o'r gwasanaeth. Gallai ystyried patrymau defnydd gwrthgyferbyniol a ffigurau meincnodi fod o gymorth wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae ehangu'r ddarpariaeth Wi-Fi i bob gwasanaeth llyfrgell yn ddatblygiad sydd i'w groesawu, sy'n sicrhau bod yr hawl graidd yn y maes hwn wedi'i cyflawni erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'r datganiad yn rhagweld anawsterau wrth gynnal perfformiad mewn nifer o feysydd, gyda chynigion i leihau cyllidebau adnoddau a staffio yn 2019/20. Dylai'r awdurdod roi ystyriaeth ofalus i effaith cyfyngiadau ariannu ar gapasiti'r gwasanaeth a'r hyn y gall ei gyflawni, wrth sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gael yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn gallu diwallu anghenion ei gymunedau lleol.

- Mae pob un o'r manau gwasanaeth sefydlog yn rhoi ystod dda o gymorth ar gyfer datblygu sgiliau ac iechyd a lles, gyda datblygiadau ychwanegol yn 2018/19 drwy ddarparu gwasanaethau sy'n Deall Dementia.
- Mae nifer yr ymweliadau ffisegol a nifer y benthydwyr gweithredol wedi lleihau ond gwelir cynnydd cyfatebol yn nifer y rhith-ymweliadau ac aelodau llyfrgell, sef y lefel uchaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Mae nifer y llyfrau a fenthycir (oedolion a phlant) hefyd wedi lleihau yn 2018/19; er bod nifer y llyfrau i oedolion a fenthycir dipyn yn is na'r lefel ganolrifol bellach, mae perfformiad y pen o'r boblogaeth o ran llyfrau i blant a fenthycir yn dal yn nodedig o uchel o gymharu ag awdurdodau eraill.
- Mae newid yn y ffordd yr asesir eitemau a gaffaelwyd y pen o'r boblogaeth (DA 9) yn golygu bod y targed o ran hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol yn 2018/19. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targedau ar gyfer darparu deunyddiau Cymraeg a chyflenwi ceisiadau.
- Mae'r ddarpariaeth draddodiadol o gyfrifiaduron personol yn dal ar y lefel uchaf yng Nghymru, ond mae'r defnydd a wneir ohonynt yn lleihau; Mae Wi-Fi bellach ar gael ym mhob un o'r 18 o fannau gwasanaeth llyfrgell.
- Mae nifer y staff proffesiynol wedi parhau ar lefelau 2017/18, ond mae lefelau staffio cyffredinol wedi gostwng ychydig, ac nid yw'r naill darged na'r llall yn cael eu cyflawni. Mae'r gwasanaeth yn rhagweld y gall cyfyngiadau cyllidebol effeithio ar berfformiad o ran hyn yn y dyfodol.
- Roedd Caerffili yn gallu rhoi gwybodaeth lawn am wariant y gwasanaeth yn 2018/19, gyda chyfanswm y gyllideb refeniw ymhlith yr uchaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1 Hawliau craidd

Mae Caerffili bellach yn cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. Mae HG 7 wedi cael ei chyflawni am y tro cyntaf ar ôl i'r ddarpariaeth o Wi-Fi gael ei hystyngi i bob un o'r 18 man gwasanaeth sefydlog. Er nad yw Cynllun Gweithredu Strategol y Gwasanaeth Llyfrgell ar gyfer 2017-2020 ar gael ar-lein eto, mae Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer 2018/19 ar gael ac felly ystyrir bod HG 12 wedi'i chyflawni.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Caerffili yn cyflawni 8 yn llawn ac 2 yn rhannol.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol	Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓
c) Cymorth e-lywodraeth	✓
d) Datblygu darllenwyr	✓
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles	Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓
DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓ Cyflawni'n llawn
DA 7 – Lleoliad mannau gwasanaeth	✓ Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol	Cyflawni'n rhannol
Derbyniadau y pen o'r boblogaeth	P
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth	x
DA 10 – Adnoddau Cymraeg	Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	✓
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth	✓
DA 11 – Mynediad ar-lein:	Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwd	✓
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau	Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓
b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓

DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff y pen o'r boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Yn 2018/19, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau ac adlewyrchu perfformiad gwasanaethau unigol, ni chafodd e-adnoddau a gaffaelwyd yn ganolog eu cynnwys yn yr adroddiad yn erbyn eitemau a gaffaelwyd ar gyfer DA 9 ar y cam asesu. Mae hyn wedi effeithio ar berfformiad Caerffili, sy'n methu â bodloni'r gofyniad o ychydig. Nodir y gellid bod wedi ceisio cyllid ychwanegol er mwyn cyflawni'r targed pe bai'r gwasanaeth wedi bod yn ymwybodol o'r newid hwn i'r broses asesu, ac felly ystyrir bod DA 9 wedi'i gyflawni'n rhannol er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa hon. Mae gwelliannau i'r ddarpariaeth Wi-Fi yn golygu bod DA 11 bellach wedi'i gyflawni'n llawn.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Caerffili ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Mai 2017, a'r arolwg i blant ym mis Gorffennaf 2018.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	60%	13/13	60%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	38%	15/15	38%	88%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	99%	=4/20	80%	97%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Caerffili bedair astudiaeth achos o'r fath, ond gellid bod wedi cynnwys tystiolaeth gryfach gan gyfranogwyr uniongyrchol mewn rhai achosion:

- Ymgysylltu rhwng y Cenedlaethau Cyfeillion Dementia – ymestyn prosiect sy'n mynd rhagddo eisoes i gynnal sesiynau darllen ar y cyd a barddoniaeth gyda phreswylwyr cartrefi gofal lleol sydd â chyflyrau sy'n gysylltiedig â dementia. Gwahoddwyd plant ysgol gynradd lleol i ddod a rhyngweithio â'r preswylwyr ar ôl eu hymweliad eu hunain â'r llyfrgell. Bu hyn yn fuddiol i bawb, gan wella sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu a llythrennedd, a bwriedir cynnal mwy o sesiynau ar y cyd.

- Cymorth i Deuluoedd – rôl y llyfrgell i gynnig lle croesawgar i un teulu ddefnyddio adnoddau a rhannu gweithgareddau na ellir eu fforddio fel arall.
- Menter RecRock – partneriaeth â menter gymdeithasol roc adloniadol yn Llyfrgell Bargoed, lle gall aelodau o'r gymuned gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau cerddorol. Mae RecRock yn dod yn gyfrifol am rannau o'r Llyfrgell ar ddiwrnod penodol bob wythnos, gyda'r llyfrgell yn rhoi adnoddau ategol. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan wedi cael budd o well hunan-barch ac iechyd meddwl, yn ogystal â dysgu sgiliau newydd.
- Cyflwyno Cyfleoedd Dysgu - yn hwyluso gwaith gwasanaethau partner ledled Caerffili sy'n darparu gweithgareddau dysgu i bobl ifanc na allant weithio mewn lleoliad ysgol ffurfiol. Mae'r llyfrgelloedd yn cynnig amgylchedd dysgu diogelu a lle addysgu, ac mae proffesiynoldeb ac ymgysylltu staff y llyfrgell yn helpu i atgyfnerthu'r hyn a ddysgir ac i ddatblygu sgiliau.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Caerffili ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 5]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	24%	15/15	24%	82%	96%	24%
c) iechyd a lles	33%	15/15	33%	62%	94%	26%
d) lle diogel a chroesawgar	99%	=2/15	90%	97%	100%	98%
DA 2 – Boddhad cwsmeriaid						[Fframwaith 5]
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	94%	4/14	81%	91%	98%	94%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	99%	=3/14	93%	99%	100%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	92%	3/13	65%	91%	95%	93%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	99%	=1/14	93%	97%	99%	98%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.4	=4/13	8.5	9.3	9.5	9.3
DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth	38	9/22	13	30	208	51
c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth	78	21/22	15	199	433	69
DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth	377	5/22	91	295	689	330
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth	3,606	15/22	2,596	3,969	7,170*	4,291
b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth	509	16/22	345	885	2,205	473
c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	209	3/22	58	150	251	220

DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth ²	903	6/22	95	602	1,424	685
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth ³	14	1/22	5	10	14	14
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	18%	19/22	14%	25%	63%	20%
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	28	=13/21	3	30	214	16
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	2,042	7/21	90	1,477	9,806	497
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth £17,369		2/22	£7,181	£12,145	£19,449	dd/b
b) % ar staff	49%	20/22	47%	62%	78%	dd/b
% ar adnoddau gwybodaeth	11%	14/22	8%	13%	21%	dd/b
% ar offer ac adeiladau	25%	1/22	0.4%	4%	25%	dd/b
% ar gostau gweithredol eraill	15%	12/22	0.3%	16%	37%	dd/b
c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth	£0	=17/22	£0	£467	£8,829	dd/b
DA 15 – Cost net am bob ymweliad	£2.47	3/22	£1.18	£1.82	£2.52	dd/b
DA 16 – Oriau agor ⁴						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.00%	0.25%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/20	0.00%	0.28%	7.99%	0.00%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân

² fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo

³ fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl ⁴ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cwblhaodd Caerffili ei arolwg o ddefnyddwyr i blant ym mis Gorffennaf 2018, gan ddangos lefelau uchel o foddhad gyda'r gwasanaeth o hyd, ond bu lleihad yn y nifer sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybodaeth. O ran hyn, nodir yr heriau sy'n gysylltiedig â bodloni disgwyliadau cenhedlaeth iau sy'n fwyfwy medrus yn ddigidol. Mae pob un o'r llyfrgelloedd sefydlog yn parhau i ddarparu'r ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ond mae'r gwasanaeth yn nodi y bydd hyn yn mynd yn fwy heriol, wrth i ddyraniadau cyllid effeithio ar nifer y cyflogeion. Mae'r cymorth ar gyfer iechyd a lles hefyd wedi parhau, gyda datblygiadau ychwanegol o ran darparu gwasanaethau sy'n Deall Dementia. Mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant i ddefnyddwyr a drefnwyd ymlaen llaw yn parhau i leihau, yn bennaf oherwydd lleihad yn nifer y cyrsiau digidol a ddarperir gan bartneriaid allweddol. Fodd bynnag, mae'r niferoedd a gafodd eu helpu drwy hyfforddiant anffurfiol wedi cynyddu, ond erys y perfformiad o ran hyn ymhlith yr isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Caerffili yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, gyda 18 cangen yn gwasanaethu ei gymunedau lleol. Mae digwyddiadau a gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig wedi parhau ym mhob cangen, ac mae niferoedd sy'n mynychu wedi cynyddu yn 2018/19, yn enwedig ymhlith y rhai 16 oed ac iau. Cymysg yw'r darlun o ran dangosyddion defnydd eraill gyda lleihad yn nifer yr ymweliadau ffisegol a benthycwyr gweithredol, ond cynnydd yn nifer y rhith-ymweliadau ac aelodau llyfrgell. Fodd bynnag, bu lleihad sylweddol yn nifer y llyfrau a fenthycir, yn enwedig llyfrau i blant, ond mae'r perfformiad o ran hyn yn dal ymhlith yr uchaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱ

Mae newid yn y ffordd yr asesir eitemau a gaffaelwyd y pen (DA 9) yn golygu mai dim ond yn rhannol y cafodd y safon hon ei chyflawni yn 2018/19, gyda'r gwasanaeth yn agos iawn at gyflawni lefel y targed. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targedau ar gyfer darparu deunyddiau Cymraeg (DA 10), gydag ymrwymiad cadarn i'w fuddsoddiad yn y stoc Gymraeg i oedolion a phlant, a chynnydd cysylltiedig a sylweddol o ran faint o'r deunyddiau hyn a fenthycir. Mae'r gwasanaeth yn dal i gyflawni'r gofynion ar gyfer cyflenwi ceisiadau hefyd, ond mae'n nodi bod gostyngiadau mewn adnoddau a ragwelir yn debygol o effeithio ar berfformiad yn y maes hwn yn 2019/20. Mae Caerffili yn parhau i ddarparu'r lefel uchaf o gyfrifiaduron personol yng Nghymru, ond mae'r defnydd a wneir ohonynt wedi lleihau ymhellach yn 2018/19, yn rhannol o bosibl o ganlyniad i'r ffaith bod Wi-Fi ar gael yn fwy cyffredinol yn yr ystâd lyfrgelloedd.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae nifer y staff proffesiynol wedi parhau ar lefelau 2017/18, ond mae'r lefelau staffio cyffredinol wedi gostwng ychydig; nid yw'r targed a bennwyd yn cael ei gyflawni yn y naill achos na'r llall. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn rhagweld y gall cyfyngiadau cyllidebol ei gwneud hi'n anodd iddo gynnal y lefelau presennol o staff proffesiynol a rheoli. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi'n briodol yn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol y staff. Mae nifer y gwirfoddolwyr / cyfanswm oriau gwirfoddolwyr wedi cynyddu ymhellach, gyda myfyrwyr coleg lleol yn ymgymryd â mwy o rolau cynorthwywyr digidol. Nodir nad yw'r gwasanaeth wedi ystyried unrhyw gam sylweddol tuag at ddarpariaeth llyfrgell a arweinir gan wirfoddolwyr eto.

Roedd Caerffili yn gallu rhoi gwybodaeth lawn am wariant y gwasanaeth yn 2018/19, gyda chyfanswm y gyllideb refeniw ymhlith yr uchaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Mae'r oriau agor yn parhau i gyflawni'r targed a bennwyd, ac nid oedd unrhyw achosion o gau llyfrgelloedd yn annisgwyl na tharfu ar wasanaethau.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Caerffili yn rhoi datganiad manwl gan nodi'r synergedd rhwng gweithgareddau'r gwasanaeth llyfrgell a dau Amcan Llesiant y Cyngor, a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae themâu allweddol yn canolbwyntio ar wella cyfleoedd addysg, galluogi cyflogaeth, cefnogi ffyrdd o fyw iach, a chefnogi pobl i fyw'n annibynnol a gwella llesiant.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Caerffili yn nodi ei fod yn gweithio tuag at gyflawni ei nodau strategol, yn unol â'r Cynlluniau Gwella Gwasanaeth blynyddol, ac er mwyn ategu Cynllun Gwella Addysg newydd yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y gostyngiadau mewn cyllid yn parhau, gyda chynigion i wneud arbedion yn 2019/20 drwy gwtogi ar y Gronfa Adnoddau, a mabwysiadu trefniadau staffio sengl mewn nifer o'r llyfrgelloedd cymunedol. Rhagwelir y bydd hyn yn effeithio ar berfformiad y gwasanaeth yn erbyn y Fframwaith Safonau yn 2019/20, ac y bydd y pwysau ariannol yn debygol o barhau drwy gydol cylch y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (2019-23). Nodir bod yr awdurdod lleol yn dal yn ymrwymedig i gynnig y ddarpariaeth orau bosibl o ran llyfrgelloedd cyhoeddus o fewn y cyfyngiadau hyn.

6 Casgliad

Mae Caerffili wedi parhau i gyflawni'n effeithiol yn erbyn y fframwaith safonau yn 2018/19, gan barhau i berfformio'n gryf mewn meysydd allweddol, er bod rhywfaint o dystiolaeth o ddirywiad yn y defnydd a wneir o'r gwasanaeth. Gallai ystyried patrymau defnydd gwrthgyferbyniol a ffigurau meincnodi fod o gymorth wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae ehangu'r ddarpariaeth Wi-Fi i bob gwasanaeth llyfrgell yn ddatblygiad sydd i'w groesawu, sy'n sicrhau bod yr hawl graidd yn y maes hwn wedi'i bodloni erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'r datganiad yn rhagweld anawsterau wrth gynnal perfformiad mewn nifer o feysydd, gyda chynigion i leihau cyllidebau adnoddau a staffio yn 2019/20. Dylai'r awdurdod roi ystyriaeth ofalus i effaith cyfyngiadau ariannu ar gapasiti'r gwasanaeth a'r hyn y gall ei gyflawni, wrth sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gael yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn gallu diwallu anghenion ei gymunedau lleol.

ⁱMae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol

Astudiaeth Achos a naratif strategol ychwanegol 2018-19 Adroddiad Safonau Blynyddol Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili

Disgwylir i astudiaethau achos effaith da gynnwys tystiolaeth bod y gwasanaeth llyfrgelloedd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i unigolyn (neu grŵp o unigolion). Byddai hyn fel arfer yn mynd y tu hwnt i ddisgrifiad o'r gwasanaethau a ddarperir a'u defnydd, i ddangos y canlyniad, a gallai gynnwys tystiolaeth gan y cwsmeriaid dan sylw.

Awdurdod: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

1. Yr effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi ei gael ar unigolyn, neu ar grŵp o unigolion, yn ystod y flwyddyn. Disgrifiwch y defnydd a wnaed o'r gwasanaeth a'r gwahaniaeth y gwnaeth y defnydd hwnnw ar yr unigolion neu'r grŵp. Gellir darparu hyd at bedair astudiaeth achos (awgrymir hyd at 500 gair yr un).

Nodwch a gafwyd caniatâd i Lywodraeth Cymru ailddefnyddio a/neu gyhoeddi'r astudiaethau achos ai peidio: Do - cafwyd / Na - ni chafwyd

a) Ymgysylltiad Llyfrgell Pontio'r Cenedlaethau Ffrindiau Dementia

Mae Saran Pope, un o dîm Llyfrgellwyr Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi arwain ar nifer o brosiectau trawiadol sy'n pontio'r cenedlaethau. Yn y cynllun a amlygwyd yn yr astudiaeth achos hon, mae Saran yn trafod prosiect rhwng disgyblion Ysgol Gynradd leol a phreswylwyr oedrannus â chyflyrau cysylltiedig â dementia sy'n byw mewn cartrefi gofal lleol yn ardal Aberbargod. Dechreuodd y rhyngweithio ar thema dementia gyda Saran yn cynnal digwyddiadau darllen a barddoniaeth a rennir mewn nifer o leoliadau cartrefi gofal. Byddai'r themâu barddoniaeth yn cael eu newid bob yn ail a'r nod ym mhob sesiwn oedd ymgysylltu a thrafod y dewisiadau a gyflwynwyd gyda'r preswylwyr oedrannus a chlywed eu cyfraniadau a'u profiadau a oedd yn ymwneud â'r pwnc dan sylw, megis mynd i lan y môr neu eu hoff sêr ffilm yn y dyddiau a fu.

Dywed Saran:

"Mae'r sesiynau anffurfiol hyn yn annog y preswylwyr i drafod beth bynnag y maen nhw'n ei deimlo. Weithiau gall hyn fod yn ychydig o sylwadau ysgafn ac ar adegau eraill mae preswylwyr yn rhannu eu straeon eu hunain gyda mi. Rydw i wedi dysgu mynd gyda'r llif bob amser... mae rhai cerddi yn cymell chwerthin, gallai un arall arwain at ganu ar y cyd ac fe wnaeth un hyd yn oed anfon rhywun i gysgu (mae'n debyg mai canmoliaeth yw hyn gan fod y preswlydd wedi ymlacio'n llwyr!) Beth bynnag oedd cyfeiriad y sesiwn. Maen nhw bob amser yn gorffen yr un peth; maen nhw'n gofyn i mi ddod yn ôl a dod â mwy o gerddi y tro nesaf."

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Saran wedi datblygu ei harddull cyflwyno hyderus a'i sgiliau wrth ymgysylltu â phreswylwyr i dargedu cartrefi gofal mwy arbenigol sy'n canolbwyntio ar ddementia ac wedi dod ag elfen ychwanegol pontio'r cenedlaethau i'r amlwg gyda phlant o

Ysgol Gynradd gyfagos yn mynychu ac yn rhyngweithio â'r cleifion sy'n dioddef o ddementia. Fel y dywed Saran:

“Ar ôl trafodaeth gyda Chydlynnydd Gweithgaredd y cartref gofal, trefnais i blant o ysgol gynradd leol ymweld â'r preswylwyr ar ôl eu hymweliad â'r llyfrgell. I ddathlu Diwrnod y Llyfr, fe wnaethon nhw i gyd rannu eu hoff straeon a'u cymeriadau gyda'i gilydd. Wrth iddyn nhw fwynhau barddoniaeth adroddodd y dosbarth hefyd gerdd Gymraeg o'u Heisteddfod ddiweddar. Ar ôl eu swildod cychwynnol roedd y plant yn gyffrous i siarad â'r preswylwyr (roedd hyn yn wir ar y ddwy ochr!) Ac fe wnaethon nhw hyd yn oed arddangos eu sgiliau fflosio! O ran y preswylwyr, roedd y gwenau mawr yn dweud y cyfan! Fel nododd y Cydlynnydd Gweithgareddau; fe wnaethon nhw i gyd ddechrau gwenu cyn gynted ag y daeth y plant trwy'r drws. ”

Mae'r sesiynau ar y cyd hyn wedi profi mor llwyddiannus a buddiol i'r ddwy ochr fel bod mwy o ryngweithio rhwng ysgolion a chartrefi gofal yn cael eu cynllunio. Mae'r cleifion dementia wedi cyflawni mwy o ymdeimlad o hunanwerth ac mae'r plant wedi gwella eu sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu a llythrennedd a'u hempatthi a'u hymwybyddiaeth o anghenion y preswylwyr sy'n byw yn y cartref gofal lleol. Cymaint fu llwyddiant y sesiynau cymunedol hyn nes i'r Ysgol sy'n cymryd rhan ofyn am hyfforddiant ffrindiau dementia gan weithio gyda'r Llyfrgell leol a fydd yn cyflwyno'r sesiynau perthnasol.

b) **Llyfrgelloedd yn cefnogi teuluoedd llai cyfoethog i rannu darllen a digwyddiadau cymunedol gyda'i gilydd**

Yn ystod 2018-19, nododd rheolwr y safle a'i Llyfrgellydd amllder yr ymweliadau yr oedd un teulu yn eu gwneud i gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau ar y safle. Y safle dan sylw oedd Llyfrgell Tref Caerffili lle byddai cwpl gyda'u plant ifanc yn ymweld bob dydd Sadwrn am y cyfnod y byddai'r Llyfrgell ar agor. Byddai'r teulu'n ymgolli mewn darllen, yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a sesiynau amser stori ac yn gwneud defnydd gweithredol o'r offer TG hefyd. Pan ddechreuodd staff y Llyfrgell fagu hyder y teulu, fe wnaethant agor i fyny a thrafod eu hamgylchiadau personol. Nid oedd y teulu'n gallu fforddio prynu adnoddau eu hunain ac roedd y Llyfrgell yn lle hanfodol yn eu hymdrechion i rannu gweithgareddau a phrofiadau dysgu pleserus fel uned deuluol gyda'i gilydd. Daeth i'r amlwg bod plant y rhiant yn byw gyda neiniau a theidiau yn ystod yr wythnos a dim ond ar y penwythnos y gallai'r rhieni a'u plant dreulio amser gwerthfawr gyda'i gilydd, ac roeddent yn dewis gwneud hynny yn Llyfrgell y dref. Nododd y rhieni:

“Mae'r plant yn hapus iawn yma. Maen nhw wrth eu bodd â'r llyfrgell ac rydyn ni'n dod bob dydd Sadwrn. Pe bai'r llyfrgell yn cau, fyddai ganddon ni ddim unman i fynd.”

“Maen nhw wrth eu bodd â'r straeon, yr helpa Wyau Pasg a'r taflenni lliwio. Mae'r llyfrgell yn eu gwneud yn hapus.”

“Mae'r llyfrgell yn gwneud gwahaniaeth i ni. Mae'n lle croesawgar ac mae'n cadw'r plant yn brysur.”

“Mae'r llyfrgell yn ein helpu i gael seibiant. Mae'n dda i rieni oherwydd mae'n ein helpu i ddeall yr hyn y mae'r plant yn ei wneud y dyddiau hyn. Dw i ddim yn deall beth maen nhw'n ei wneud mewn ysgolion ond yma rydych chi'n dod i ddeall ychydig mwy am yr hyn maen nhw'n ei wneud. ”

“Mae'r bobl sy'n gweithio yma yn gyffrous iawn wrth adrodd y straeon. Dydw i ddim yn gallu gwneud hynny. ”

“Mae'r plant wrth eu bodd â'r amseroedd stori. Maen nhw'n cael eu cyffroi gan y bobl sy'n darllen.”

“Mae'r diwrnodau gweithgaredd yn ddefnyddiol iawn ac mae'r plant yn dysgu pethau ac rydyn ni'n dysgu beth maen nhw'n ei wneud. Maen nhw'n gallu gwneud y pethau crefftus yma. Mae'r llyfrgell yn helpu'r plant i ddysgu.”

Mae lefel ymroddiad y teulu cyfan yn ganmoladwy yn enwedig gan fod bywyd normal a'r disgwyliadau y mae llawer o bobl yn eu cymryd yn ganiataol yn ymddangos y tu allan i'w gafael uniongyrchol ar hyn o bryd. Mae Llyfrgell y dref yng Nghaerffili yn amlwg yn gwneud gwahaniaeth i'r teulu hwn a llawer iawn o deuluoedd eraill ar adeg pan all pethau sylfaenol bywyd fod yn ddigon heriol i'w darparu.

c) Menter RecRock yng Nghapel Hanbury Bargod

Mae datblygu partneriaethau ystyrlon a threfniadau gweithio ar y cyd â mentrau cymdeithasol lleol yn ddull pwysig a all hwyluso amrediad gwell o wasanaethau y gall preswylwyr gymryd rhan ynddynt yn eu Llyfrgell leol tra hefyd yn galluogi mentrau lleol i gyrraedd cynulleidfa fwy amrywiol mewn ardaloedd sydd wedi bod yn hanesyddol heriol. Mae'r fenter gymdeithasol roc hamdden sydd ar hyn o bryd yn gweithio'n rhannol o Lyfrgell Capel Hanbury Bargod yn enghraifft wych o'r gwasanaethau amrywiol y gall gweithgaredd partneriaeth o'r fath eu hwyluso yn un o brif gyfleusterau'r ardal.

Dywed Damon Christopher yr Uwch Gynorthwydd Llyfrgell yng Nghapel Hanbury:

“Mae Llyfrgell Bargod wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â RecRock, menter cerddoriaeth gymdeithasol yng Nghaerffili, am y 10 mis diwethaf. Trwy'r bartneriaeth hon rhoddir cyfle i aelodau o bob oed ddysgu sut i chwarae offerynnau cerdd, i weithio ac ysgrifennu ar y cyd, golygu darnau ffilm a chyfryngau cerddorol a chreu cynnwys cyfryngau cymdeithasol.”

Mae RecRock, sy'n fenter gymdeithasol wedi'i lleoli yng nghanolfan ICE Cymru yng Nghaerffili yn cymryd drosodd rhannau o'r Llyfrgell ar ddiwrnod penodol bob wythnos. Mae hyn yn caniatáu amrywiaeth o berfformiad o recordiadau personol i sesiynau jamio agored, y gall y grŵp ac aelodau'r cyhoedd eu mwynhau trwy weddill y llyfrgell.

Dywed Damon fod y gweithgaredd wythnosol yn y Llyfrgell

“yn aml yn ysgogi trafodaeth gadarnhaol ymhlith y cwsmeriaid. Mae'r grŵp yn defnyddio adnoddau llyfrgell yn ystod eu sesiynau, gan gynnwys llyfrau, sgoriau cerddoriaeth, a TGCh a Wi-Fi sydd ar gael.”

Ychwanega Damon:

“Gan ddefnyddio pŵer cerddoriaeth, mae'r sesiynau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a diwylliant yn ein cymuned leol. Gall y rhai sy'n cymryd rhan yn y prosiect wireddu breuddwydion gydol oes, darganfod talentau cudd a dysgu sgiliau newydd o fewn canolbwynt cymunedol eu llyfrgell leol.”

Mewn rhai achosion mae staff llyfrgell wedi gweld cydberthynas uniongyrchol rhwng mynychu'r sesiynau hyn a gwella hunan-barch personol, iechyd meddwl a gallu ymhlith y trigolion sy'n cymryd rhan yn y sesiynau roc. Yn aml, adeiladwyd ar hyn gan staff lleol y

Llyfrgell gan ddarparu cefnogaeth un i un i'r rheini sy'n ymwneud â datblygu sgiliau digidol ac ymwybyddiaeth o lythrennedd gwybodaeth.

Daw Damon i'r casgliad:

“Wedi'n hysbrydoli gan lwyddiant digwyddiad GetItLoudInLibraries, mi wnaethon ni geisio darparu cyfleoedd hamdden, cymdeithasol a diwylliannol i'r gymuned wedi'u gosod yn y 3ydd gofod. Mae'r bartneriaeth hon wedi rhoi cyfle a lle i'r gymuned greu, dysgu a rhannu eu diddordebau angerddol mewn lleoliad diogel, cefnogol, cynhwysol, rhyng-genedlaethau ac uchelgeisiol... eu llyfrgell leol. Mae gennym yr adnoddau ategol, y gofod a'r ethos i sefyll gyda'n defnyddwyr ac i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth leol.”

d) **Cefnogi partneriaid i ddarparu cyfleoedd dysgu effeithiol i'r rhai sydd y tu allan i addysg brif ffrwd**

Mae llyfrgelloedd lleol ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili yn aml yn hwyluso gwasanaethau partneriaeth i ddarparu gweithgareddau dysgu sydd eu dirfawr angen i'r plant a'r bobl ifanc hynny nad ydynt wedi gallu addasu i leoliad ysgol ffurfiol. Cyfeirir at y rhai dan 16 hyn yn aml fel myfyrwyr addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), y rhai sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r Ysgol. Yn aml mae gan fyfyrwr EOTAS anghenion unigol a chymhleth iawn sy'n gofyn am hyfforddiant un i un gan swyddog hyfforddedig. Mae llyfrgelloedd yn aml yn cynnig y math o amgylchedd dysgu a gofodau addysgu sy'n gweddu i anghenion cymhleth y dysgwyr unigol ac maent wedi'u lleoli mewn llawer o'r ardaloedd cymunedau a threfi.

Yn ddiweddar, ysgrifennodd un tiwtor EOTAS sy'n defnyddio Llyfrgell Palas Rhisga at Wasanaethau Llyfrgell y Fwrdeistref Sirol yn mynegi ei diolch am y cyfleusterau sydd ar gael a'r effaith gadarnhaol y mae wedi'i chael ar un o'i myfyrwyr. Dywedodd y tiwtor EOTAS:

“Mae'r cyfleusterau yn y Llyfrgell yn ardderchog ar gyfer addysgu gan fod bwrdd Gwyn Rhyngweithiol ar gael sy'n offeryn addysgu rhyngweithiol. Mae'r adnodd hwn yn wych ar gyfer dysgu disgyblion heriol gan ei fod yn ymgysylltu â nhw ac yn eu galluogi i chwarae mwy o ran yn y wers.”

Mae'r tiwtor yn mynd yn ei blaen i nodi:

“Cyfleuster arall rwy'n ei ddefnyddio yn y Llyfrgell yw'r ystafelloedd preifat sy'n berffaith ar gyfer disgyblion sydd wedi ymddieithrio o addysg Ysgol ac sydd angen sefyll arholiadau. Mae'r staff bob amser yn archebu ystafelloedd i mi a fy myfyrwr sy'n rhoi tawelwch meddwl rhagorol i mi wrth drefnu arholiadau mor bwysig â rhai TGAU... Mae fy myfyrwr ... yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio ac mae ganddo rychwant sylw byr felly mae'r sylfaen ddysgu hon wedi caniatáu iddo gael opsiynau ar gyfer ei hwyliau. Rhai dyddiau mae eisiau bod ar ei ben ei hun felly rydyn ni'n defnyddio'r ystafell ddysgu a dyddiau eraill mae eisiau gweithio ar y cyfrifiadur. Mae'r Llyfrgell yn caniatáu iddo ddewis amgylchedd dysgu sy'n addas iddo.”

Mae'r tiwtor yn cloi ei llythyr trwy dynnu sylw at yr effaith gadarnhaol y mae proffesiynoldeb ac ymgysylltiad Staff y Llyfrgell yn eu gwaith a sut mae'r nodweddion a'r ymddygiadau hynny hefyd wedi chwarae rhan fawr wrth atgyfnerthu dysgu a sgiliau ymhlith y dysgwyr hyn a dysgwyr EOTAS eraill a fu'n mynychu cyfleuster Llyfrgell Palas Rhisga.

2. Rhowch naratif sy'n dangos sut mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at nodau strategol a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru (awgrymir rhwng 500 - 1,000 o eiriau).

Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol y Cyngor 2018-2023 gan gynnwys ei Amcanion Lles. Mae'r tabl isod yn amlygu'r meysydd o synergedd penodol rhwng gweithgareddau'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd a thargedau strategol yr Awdurdod Lleol. Mae'r ffocws clir ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn amlygu cyfraniad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd at flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru gan gynnwys themâu allweddol Ffyniant i Bawb a Symud Cymru Ymlaen, 2016-202.

Amcanion Lles y Cyngor 2018-2023	Deilliannau Lles	Cyfraniad Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
<p>Gwella Cyfleoedd Addysg i Bawb</p> <p><i>Yn gysylltiedig â thema allweddol y strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb: Uchelgeisiol ac yn Dysgu'</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Lleihau effaith tlodi yn y blynyddoedd cynnar • Codi Safonau Cyrhaeddiad • Lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a galwedigaethol • Helpu rhai nad ydynt yn gallu dilyn llwybr cyrhaeddiad traddodiadol • Cefnogi dysgu sy'n galluogi cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc ac oedolion gan gynnwys ffocws ar 'sgiliau'r dyfodol' • Gwella Sgiliau Digidol • Gwella'r amgylchedd dysgu 	<p>Mae'r Cynllun Dechrau Da a gydnabyddir yn genedlaethol ac sy'n darparu deunyddiau darllen a gwybodaeth am ddim i rieni a phlant bach yn eu harchwiliad lechyd 9 mis oed wedi'i hen sefydlu yng Ngwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili, mae hyn yn parhau yn 2018-19.</p> <p>Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol yn cefnogi nifer o brosiectau gyda Thim Blynyddoedd Cynnar y Cyngor a menter Dechrau'n Deg. Lleolir tîm Blynyddoedd Cynnar a sylfaen adnoddau Dechrau'n Deg yn Llyfrgell Aberbargod tra bod Llyfrgell Rhymini yn cynnal ystod o sesiynau rhieni a phlant bach yn rheolaidd a ddarperir gan Dechrau'n Deg ac ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar eraill, gan gynnwys grwpiau Meithrin.</p> <p>Yn ystod 2018-19 cefnogodd Llyfrgelloedd Caerffili 11,851 o blant a rhieni / gofalyddion i gymryd rhan mewn sesiynau plant bach a gweithgareddau amser Rhigwm yn y Llyfrgell. Mae hyn yn cynrychioli dirywiad bychan mewn perfformiad o'i gymharu â 2017-18 pan fynychodd 12,537 sesiynau, sef gostyngiad o 6%. Mae lefel gyffredinol yr ymgysylltiad rhwng Llyfrgelloedd lleol a rhieni / gofalyddion plant ifanc yn parhau i fod yn thema arwyddocaol sy'n cael blaenoriaeth ym mhob Cynllun Gweithredu Llyfrgell.</p> <p>Mynychodd 1,469 o blant Glybiau Gwaith Cartref a weithredir gan Lyfrgell yn 2018-19, gostyngiad o 8% ar y lefelau a gyflawnwyd yn 2017-18.</p> <p>Mae Clybiau Codio i blant ac yn gynyddol oedolion wedi cynyddu'n sylweddol mewn poblogrwydd dros y flwyddyn ddiwethaf gyda 1653 o ddefnyddwyr yn mynychu gweithgareddau o gymharu â 1300 yn 2017-18, cynnydd o 27%. Mae llawer o'r cwsmeriaid wedi nodi gwelliant yn eu sgiliau</p>

		<p>a'u hyder yn dilyn cymryd rhan yn y clybiau.</p> <p>Mae 18 Llyfrgell safle sefydlog y Fwrdeistref Sirol yn cynnig adrannau i Blant a lle pwrpasol i Bobl Ifanc gydag adnoddau wedi'u targedu a chelfi croesawgar. Mae'n rhad ac am ddim i fenthyg llyfrau a defnyddio'r Terfynellau Rhyngwrwyd ac nid yw taliadau dychwelyd eitemau'n hwyr yn berthnasol i rai dan 16 oed gyda'r bwriad o feithrin lefel gwbl hygyrch i'r rhai sy'n dymuno cael mynediad at y gwasanaeth.</p> <p>Cyflawnwyd gwelliant gwasanaeth pellach i drigolion yn 2018-19, sef cyflwyno mynediad Wi-Fi am ddim ym mhob un o'r 18 safle sefydlog, cynnydd o'r 12 safle lle'r oedd y ddarpariaeth yn bodoli flwyddyn ynghynt. Mae argraffu Wi-Fi yn cael ei brofi mewn nifer o'r safleoedd mwy ar hyn o bryd.</p> <p>Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol yn cynnal nifer o brosiectau wedi'u teilwra ar gyfer oedolion a chyflogaeth ar ei safleoedd. Mae'r rhain yn cynnwys Pontydd i Waith, Cymunedau ar gyfer Gwaith, a digwyddiadau wedi'u llunio ar batrwm Dydd Gwener Digidol. Mae mwy na 6,843 o drigolion wedi elwa o hyfforddiant parodrwyd digidol a gwaith trwy'r mentrau pwysig hyn. Yn ogystal, mae tua 1,878 o gwsmeriaid wedi cael mynediad at gefnogaeth Sgiliau Bywyd mewn Llyfrgelloedd lleol yn ystod 2018-19.</p> <p>Mae cefnogi trigolion i wella eu Sgiliau Trin Gwybodaeth a'u Sgiliau Digidol yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol i Wasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili. Nodir perfformiad yn y meysydd hyn uchod. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn darparu mynediad am ddim i 250 o derfynellau wedi'u galluogi i gysylltu â'r Rhyngwrwyd ar draws ei 18 safle gyda darpariaeth WiFi yn ei holl bwyntiau gwasanaeth.</p> <p>Mae addysg heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) a gwasanaethau cymorth tiwtora yn y Cartref ar gael mewn nifer o gyfleusterau Llyfrgell y Fwrdeistref Sirol gyda 523 o blant a phobl ifanc yn elwa o sesiynau a gynhelir mewn safleoedd Llyfrgell lleol yn ystod 2018-19. <i>Gweler hefyd yr astudiaeth achos a gynhwysir yn y wybodaeth adrodd ar y Safonau a ddarperir.</i></p> <p>Yn 2018-19 cymerodd 1,653 o blant ac oedolion ran mewn Clybiau Codio a gynhaliwyd gan Lyfrgell, cynnydd o 27% o'r rhai a gymerodd ran yn 2017-18. Mae'r maes hwn o ymwybyddiaeth ddigidol wedi adnabod budd pellgyrhaeddol i'r rhai sydd wedi elwa ohono a Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol.</p> <p>Mae dros 6,910 o bobl wedi cymryd rhan ac elwa o ryw lefel o hyfforddiant sgiliau digidol, gan gynnwys codio, ar safleoedd Llyfrgell y Fwrdeistref Sirol yn ystod 2018-19. Cynnydd o 3% ar hyfforddiant a chefnogaeth debyg a ddarparwyd mewn Llyfrgelloedd yn 2017-18.</p>
--	--	--

		<p>Mae pob un o'r 18 pwynt gwasanaeth y Fwrdeistref Sirol yn cynnig lle pwrpasol i blant, pobl ifanc a dysgwyr o bob oed gael mynediad at ystod eang o adnoddau ac offer digidol wedi'u teilwra i'w hanghenion.</p> <p>Yn yr arolwg mwyaf diweddar o foddhad plant a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2018, roedd 9.5 o gwsmeriaid Llyfrgell Cyfnod Allweddol (CA) 2 eu Llyfrgell Fwrdeistref Sirol o'r farn ei fod yn lle diogel a chroesawgar. Nododd 93% fod defnyddio'r Llyfrgell wedi helpu i wella eu darllen gydag 85% yn nodi bod y cyfleusterau cyfrifiadurol wedi eu cynorthwyo hefyd. Yng ngrŵp oedran CA 3 nododd 52% o'r ymatebwyr eu bod wedi defnyddio cyfrifiaduron Llyfrgell gyda'u gwaith Ysgol.</p> <p>Roedd 99% o Oedolion oedd yn ddefnyddwyr Llyfrgell Gyhoeddus a gymerodd ran mewn arolwg o'r farn bod cyfleusterau Llyfrgell yn fannau pleserus, diogel a chynhwysol i ymweld â nhw yn 2017.</p>
<p>Galluogi Cyflogaeth</p> <p><i>Yn gysylltiedig â thema allweddol y strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb: Ffyniannus a Diogel'</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ceisio lleihau effaith tlodi trwy gefnogi pobl i ragolygon cyflogaeth gwell 	<p>Yn 2018-19 bu gostyngiad o 6% yn nifer y dosbarthiadau TG a gynhaliwyd mewn Llyfrgelloedd, o gymharu â 2017-18, a gostyngodd cyfanswm nifer y trigolion a fynychodd lyfrgelloedd o 6455 yn 2017-18 i 5257 yn 2018-19.Y. Gostyngodd nifer y mynychwyr dosbarthiadau TG 19% mewn un flwyddyn galendr.</p> <p>Yn ystod 2018-19 cynhaliodd Llyfrgelloedd 395 o sesiynau Paru Swyddi a 1,728 o ryngweithiadau Sgiliau Sylfaenol.</p>
<p>Creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw</p> <p><i>Yn gysylltiedig â thema allweddol y strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb: Iach ac Egniol'</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ceisio lleihau anghydraddoldeb iechyd ledled y Fwrdeistref Sirol. 	<p>Darperir mynediad at adnoddau a gwybodaeth iechyd wedi'u targedu ar draws pob un o'r 18 safle sefydlog.</p> <p>Mae'r Cynllun Llyfrau ar Bresgripsiwn i gefnogi'r cwsmeriaid hynny sydd â phryderon Iechyd Meddwl ysgafn i gymedrol yn parhau i fod yn elfen bwysig o gynnig lles Llyfrgelloedd Caerffili fel y mae'r fenter dementia 'Darllen yn Well' a lanswyd yn ddiweddar ac a noddir gan The Reading Agency a'r Cyngor Llyfrau yng Nghymru. Mae gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd eisoes gasgliadau o'r adnodd dementia gyfeillgar 'Lluniau i'w Rhannu' ym mhob un o'r 18 safle sefydlog. Rhennir podiau pricio'r cof rhyngweithiol rhwng Llyfrgelloedd a Chartrefi Gofal sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor i gynorthwyo ymgysylltu â thrigolion sy'n dioddef o ddementia neu gyflyrau cysylltiedig. Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol hefyd wedi lansio menter 'Bag Cofio' ar draws pob un o'r 18 safle. Mae'r 'Bagiau Cof' yn cynnwys cymysgedd o adnoddau ac offer i gefnogi rhyngweithio rhwng y rhai sy'n cael trafferth â dementia a'u teulu / gofalyddion.</p> <p>Mae Cynllun Gweithredu Dementia a gyflwynwyd yn y Gwasanaethau Llyfrgell yn ystod 2018-19 wedi cael cefnogaeth</p>

		<p>gadarnhaol gan Gymdeithas Alzheimer Cymru wrth iddo weithio tuag at ddoed yn wasanaeth Dementia Gyfeillgar.</p> <p>Mae hyfforddiant a sefydlwyd i ddatblygu ymwybyddiaeth o ddementia wedi cael ei gynnig i holl staff y Llyfrgell yn ystod 2018-19 ac mae nifer sylweddol wedi cwblhau'r sesiynau byr i ennill statws Ffrind Dementia.</p> <p>Prynodd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili 450 o deitlau yn 2018-19 sy'n ymwneud ag iechyd a Lles ac mae'n cynnig tua 4,500 o eitemau i'w benthyg ar amrediad eang o gyflyrau sy'n gysylltiedig ag iechyd a llwybrau triniaeth. Benthycwyd 5532 o'r adnoddau iechyd hyn yn ystod 2018-19.</p> <p>Mae Bagiau Cof Rhyngweithiol wedi'u creu gyda chymysgedd o adnoddau ac offer wedi'u targedu at gefnogi rhai sydd â dementia i gyfathrebu'n fwy effeithiol â'u gofalydd a'u teulu estynedig. Mae pob un o 18 llyfrgell safle sefydlog y Fwrdeistref Sirol yn dal bag y gellir ei fenthyg gan gwsmeriaid sydd â pherthynas neu ffrind sy'n cael trafferth â'u cof.</p> <p>Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol wedi cael ei gydnabod am ei waith yn datblygu cyfleusterau, adnoddau, ac amgylchedd dementia gyfeillgar gyda gwobr wedi ei noddi gan y Gymdeithas Alzheimer.</p> <p>Roedd benthyciadau deunyddiau penodol dementia gyfeillgar o Lyfrgelloedd yn ystod 2018-19 yn fwy na 255.</p>
<p>Cefnogi dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu lles</p> <p><i>Yn gysylltiedig â thema allweddol y strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb: Iach ac Egniol'</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi pobl i 'helpu eu hunain' trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth gynhwysfawr gan gynnwys cyfeirio at wasanaethau eraill. • Adnabod a chefnogi gofalyddion. 	<p>Gweithredir darpariaeth 'Gwasanaeth Caeth i'w Tai' y Cyngor gan ddau swyddog amser llawn sy'n mynd ag ystod o ddeunyddiau a ddewiswyd ymlaen llaw i gwsmeriaid yn eu cartrefi. Yn ystod 2018-19 cyflwynodd y gwasanaeth Cyswllt Llyfrgell 11,491 o adnoddau, cynnydd o 4.5% ar 2017-18, i 221 o gwsmeriaid gan wneud 2,873 o ymweliadau. Mae nifer y cwsmeriaid sy'n derbyn y Gwasanaeth Caeth i'w Tai wedi gostwng 21% ers 2017-18.</p> <p>Fel nodwyd uchod, mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Caerffili yn darparu ystod o ddeunyddiau sy'n canolbwyntio ar ddementia o'i 18 safle sefydlog sydd wedi'u targedu at gefnogi'r rhai sy'n dioddef o'r cyflwr a'u gofalyddion.</p>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Nodau Lles

Nod	Disgrifiad	Cyfraniad Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol
-----	------------	--

<p>Cymru lewyrchus</p> <p><i>Yn gysylltiedig â thema allweddol y strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb: Ffyniannus a Diogel'</i></p>	<p>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.</p>	<p>Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili yn galluogi preswylwyr i gael mynediad am ddim i ystod eang o adnoddau a all gynorthwyo yn eu gweithgareddau hamdden, darparu dihangfa, darparu gwybodaeth ac addysgu. Mae llyfrau llyfrgell a deunyddiau heblaw llyfrau o'u natur yn ymgorfforiad perffaith o ailgylchu gan fod nifer o unigolion yn gallu darllen yr un teitl heb yr angen i deithio ar draws y Fwrdeistref Sirol i gael mynediad atynt. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn gweithredu gwasanaeth ceisiadau am ddim ac yn bartner gweithredol yn nhrefniant 'Books4U' De Cymru. Yn ystod 2018-19 cyrchodd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Caerffili 4,014 o lyfrau a deunyddiau cysylltiedig trwy 'Books4U' wrth anfon 2,559 o deitlau at Gynghorau eraill sy'n rhan o'r trefniant yn yr ardal, cynnydd mewn benthycia o 15% ar y gweithgaredd yn 2017-18</p> <p>Yn ystod 2018-19 cynhaliodd Llyfrgelloedd 395 o sesiynau Paru Swyddi a 1,728 o ryngweithiadau Sgiliau Sylfaenol.</p> <p>Mae dros 6,910 o bobl wedi cymryd rhan ac elwa o ryw lefel o hyfforddiant sgiliau digidol, gan gynnwys codio, ar safleoedd Llyfrgell y Fwrdeistref Sirol yn ystod 2018-19. Cynnydd o 3% ar hyfforddiant a chefnogaeth debyg a ddarparwyd mewn Llyfrgelloedd yn 2017-18.</p> <p>Mae lleoliadau llyfrgell yn fodern, wedi'u dodrefnu'n dda ac yn gyffyrddus i'w defnyddio. Mae pob un o'r 18 llyfrgell safle sefydlog bellach yn cynnig mynediad WiFi am ddim, gwelliant o 12 yn 2017-18. Yn ogystal, mae'r profiad cyfrifiadur desg traddodiadol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd trwy 250 o Derfynellau Rhyngrwyd. Mae astudiaethau peilot ar y gweill ar hyn o bryd ar draws nifer o safleoedd Llyfrgelloedd mwy y Cyngor er mwyn cynnig mynediad am ddim i gwsmeriaid i argraffu WiFi.</p> <p>Yn yr arolwg mwyaf diweddar o foddhad plant a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2018, roedd 9.5 o gwsmeriaid Llyfrgell Cyfnod Allweddol (CA) 2 eu Llyfrgell Fwrdeistref Sirol o'r farn ei fod yn lle diogel a chroesawgar. Nododd 93% fod defnyddio'r Llyfrgell wedi helpu i wella eu darllen gydag 83% yn nodi bod y cyfleusterau cyfrifiadurol wedi eu cynorthwyo hefyd. Yng ngrŵp oedran CA 3 nododd 52% o'r ymatebwyr eu bod wedi defnyddio cyfrifiaduron Llyfrgell gyda'u gwaith Ysgol.</p> <p>Yn 2018-19 cymerodd 1,653 o blant ac oedolion ran mewn Clybiau Codio a gynhaliwyd gan Lyfrgell, cynnydd o 27% o'r niferoedd a gymerodd ran yn 2017-18.</p> <p>Mae dros 6,910 o bobl wedi cymryd rhan ac elwa o ryw lefel o hyfforddiant sgiliau digidol, gan gynnwys codio, ar safleoedd Llyfrgell y Fwrdeistref Sirol yn ystod 2018-19. Cynnydd o 3% ar hyfforddiant a chefnogaeth debyg a ddarparwyd mewn Llyfrgelloedd yn 2017-18.</p> <p>Roedd 99% o Oedolion oedd yn ddefnyddwyr Llyfrgell Gyhoeddus a</p>
--	---	--

		<p>gymerodd ran mewn arolwg o'r farn bod cyfleusterau Llyfrgell yn fannau pleserus, diogel a chynhwysol i ymweld â nhw yn 2017.</p> <p>Mae addysg heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) a gwasanaethau cymorth tiwtora yn y Cartref ar gael mewn nifer o gyfleusterau Llyfrgell y Fwrdeistref Sirol gyda 523 o blant a phobl ifanc yn elwa o sesiynau a gynhelir mewn safleoedd Llyfrgell lleol yn ystod 2018-19. Gostyngiad sylweddol o gymharu â'r Ddarpariaeth EOTAS a gofnodwyd yn yr un lleoliad yn 2017-18 pan gynorthwywyd 1,281 o blant a phobl ifanc. Gweler yr <i>astudiaeth achos a gynhwysir ar gefnogi dysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd mewn lleoliadau addysgol ffurfiol.</i></p>
<p>Cymru gydnerth</p> <p><i>Yn gysylltiedig â thema allweddol y strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb: Ffyniannus a Diogel'</i></p>	<p>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid. (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).</p>	<p>Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio nifer o wasanaethau ailgylchu i sicrhau y gellir aildefnyddio adnoddau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes gynhyrchiol wrth gefnogi targedau amgylcheddol. Mae llyfrau a chyfryngau eraill sydd wedi dod i ben ei hoes yn cael eu hailgylchu gan gwmnïau cofrestredig ac mewn rhai achosion maent yn cael eu gwerthu trwy Better World Books, busnes cymdeithasol sy'n gweithio'n agos gyda'r sector Elusennau.</p>
<p>Cymru iachach</p> <p><i>Yn gysylltiedig â thema allweddol y strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb: Iach ac Egniol'</i></p>	<p>Cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.</p>	<p>Prynodd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili 450 o deitlau yn 2018-19 sy'n ymwneud ag lechyd a Lles ac mae'n cynnig tua 4,500 o eitemau i'w benthgyl ar ystod eang o gyfilyrau sy'n gysylltiedig ag iechyd a llwybrau triniaeth. Cafwyd 5532 o fenthyciadau o'r adnoddau iechyd hyn yn ystod 2018-19.</p> <p>Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol yn cymryd rhan weithredol yng nghynllun cenedlaethol Llyfrau ar Bresgripsiwn a gynlluniwyd i gefnogi trigolion â chyflyrau lechyd Meddwl ysgafn i gymedrol ac roedd The Reading Agency yn cefnogi casgliadau Darllen yn Well sy'n ceisio cefnogi dioddefwyr dementia a'r rhai sy'n gofalu am aelodau'r teulu sydd â'r cyflwr hwn.</p> <p>Mae 2018-19 wedi nodi blaenoriaeth strategol sylweddol ar ran Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol i wella hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff ynghylch heriau byw gyda dementia neu sut y gellir cefnogi gofalyddion cleifion sydd â dementia yn fwy effeithiol. Mae Cynllun Gweithredu Dementia Gwasanaethau Llyfrgell wedi cael derbyniad cadarnhaol gan y Gymdeithas Alzheimer yng Nghymru.</p> <p>Mae pob Llyfrgell yn y Fwrdeistref Sirol yn cynnig bag y gellir ei fenthgyl o gymhorthion procio'r Cof ac adnoddau hel atgofion.</p> <p>Mae gan bob Llyfrgell yn eu Cynlluniau</p>

		Gwella Lleol blynyddol flaenoriaethau sy'n gysylltiedig â gwella iechyd a lles trigolion.
<p>Cymru sy'n fwy cyfartal</p> <p><i>Yn gysylltiedig â thema allweddol y strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb: Unedig a Chysylltiedig'</i></p>	<p>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial beth bynnag yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol economaidd).</p>	<p>Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili yn darparu cyfleusterau croesawgar am ddim i'w holl drigolion.</p> <p>Mae'r Cynllun Dechrau Da a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n darparu deunyddiau darllen a gwybodaeth am ddim i rieni a phlant bach yn eu harchwiliad Iechyd 9 mis wedi'i hen sefydlu yng Ngwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili.</p> <p>Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol yn cefnogi nifer o brosiectau gyda Thim Blynyddoedd Cynnar y Cyngor a Dechrau'n Deg. Mae Llyfrgell Blynyddoedd Cynnar yn Llyfrgell Aberbargod tra bod Llyfrgell Rhymini yn cynnal ystod o sesiynau rhieni a phlant bach yn rheolaidd a ddarperir gan Dechrau'n Deg ac ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar eraill gan gynnwys grwpiau meithrin lleol.</p> <p>Yn ystod 2018-19 cynhaliodd Llyfrgelloedd 395 o sesiynau Paru Swyddi a 1,728 o ryngweithiadau Sgiliau Sylfaenol.</p> <p>Mae mwy na 6,843 o drigolion wedi elwa o hyfforddiant parodrwydd digidol a gwaith yn 2018-19.</p> <p>Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol yn parhau i gefnogi trigolion sydd ar, neu sydd wedi symud i'r system budd-dal Credyd Cynhwysol gyda chefnogaeth ddigidol. Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cynorthwyo dinasyddion yr UE sy'n ceisio statws sefydlog yn y DU ar ôl Brexit fel rhan o ofynion arwyddo'r llywodraeth.</p>
<p>Cymru o gymunedau cydlynus</p> <p><i>Yn gysylltiedig â thema allweddol y strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb: Unedig a Chysylltiedig'</i></p>	<p>Cymunedau atyniadol, hyfw a diogel sydd â chysylltiadau da.</p>	<p>Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi'i leoli mewn 18 o safleoedd tref a phentref sy'n cyfrannu'n weithredol ar yr amgylchedd ffisegol y maent yn ei rannu. Mae Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn cael eu hystyried fel tenantiaid angor yn yr amgylchedd manwerthu / Stryd Fawr cyfoes.</p> <p>Yn Strategaeth Toiledau Cyhoeddus y Cyngor a fabwysiadwyd yn ddiweddar, mae llyfrgelloedd yn chwarae rhan bwysig fel safle lleol lle gall trigolion gael mynediad i'w cyfleusterau yn agos at ble maent yn byw, gweithio neu chwarae.</p> <p>Yn yr arolygon defnyddwyr Oedolion a Phlant diweddaraf o Lyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol, roedd y cwsmeriaid a holwyd yn bendant eu barn bod Llyfrgelloedd lleol yn gyfleusterau diogel, croesawgar a chydgyssylltiedig.</p>
<p>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn</p>	<p>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant,</p>	<p>Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi hunaniaethau diwylliannol y cymunedau y</p>

<p>ffynnu</p> <p><i>Yn gysylltiedig â thema allweddol y strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb: Unedig a Chysylltiedig'</i></p>	<p>treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden</p>	<p>mae'n eu cynrychioli.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn rhagweithiol yn marchnata ei ddeunyddiau Cymraeg i gwsmeriaid ac mae wedi croesawu dull dwyieithog o gyflenwi gwasanaeth a chymorth i ddefnyddwyr lle bynnag y bo hynny'n bosibl yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg 2011.</p> <p>Yn ystod 2018-19 gwariodd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Caerffili £27,413 ar adnoddau Cymraeg, 7.5% o gyfanswm y gronfa adnoddau a benthycwyd 15,182 o eitemau, cynnydd o 32% ar y perfformiad a adroddwyd ar gyfer 2017-18.11,492.</p> <p>Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol wedi cynnal ei ymrwymiad i hyfforddi staff newydd o ran ymgyfarwyddo â chwrd a chyfarch yn y Gymraeg.</p>
<p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p> <p><i>Yn gysylltiedig â thema allweddol y strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb: Ffyniannus a Diogel'</i></p>	<p>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.</p>	<p>Mae Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn rhan bwysig o bortffolio adeiladau'r Cyngor Sir gyda nifer o safleoedd arwyddocaol sy'n ategu eu hamgylcheddau ffisegol tra hefyd yn gwarchod lleoliadau diwylliannol pwysig yn Rhisga, Caerffili, Trecelyn a Bargod.</p> <p>Mae Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn cael eu hystyried yn denantiaid angor pwysig yng nghanol trefi a phentrefi lleol sy'n cefnogi lles economaidd yr ardaloedd y maent wedi'u lleoli ynddynt.</p>

3. Rhowch ddatganiad byr o gyfeiriad a chynlluniau ar gyfer dyfodol y gwasanaeth llyfrgelloedd. (awgrymir hyd at 200 o eiriau).

Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithio tuag at gyflawni'r nodau a osodwyd yn ei Strategaeth 2017-2020 a'i Gynllun Gwella Gwasanaeth blynyddol. Yn ddiweddar, mae'r Awdurdod Lleol wedi cymeradwyo Cynllun Gwella Addysg o'r enw 'Uchelgeisiau a Rennir: cydweithio i gyflawni'r canlyniadau gorau i'n pobl ifanc'. Bydd Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol yn gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau cefnogi eraill i gynorthwyo Ysgolion, athrawon, disgyblion a rhieni i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i drigolion ifanc sy'n tyfu i fyny yn yr ardal.

Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol, fel pob Adran o'r Cyngor, yn cael ei lywodraethu gan Gynllun Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod Lleol 2019-2023. Mae cynigion arbedion ar gyfer Llyfrgelloedd 2019-2020 yn cynnwys gostyngiadau i'r Gronfa Adnoddau a chynnydd mewn mabwysiadu staffio sengl ar nifer o safleoedd Llyfrgelloedd cymunedol y Cyngor. Heb os, bydd hyn yn effeithio ar y Ffurflen Safonau Blynyddol a ragwelir ar gyfer 2019-2020. Mae cyfyngiadau ariannol pellach yn debygol ar gyfer pob un o flynyddoedd dilynol cylch y Cynllun Ariannol Tymor Canolig hyd at Fawrth 2023.

Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflenwi'r ddarpariaeth Llyfrgell Gyhoeddus orau bosibl yn ystod y cyfnod hwn o gyfyngiadau ariannol parhaus. Bydd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu'r mesurau y bydd y Cyngor yn asesu eu perfformiad drwyddynt.



The sixth quality framework for Welsh public libraries

April 2017 to March 2020

Annual return pro-forma: Year ending 31 March 2019

Guidance notes

The return is to be made over three worksheets, together with a Word document. Authorities should take note of the following:

The *Definitions and guidelines for data collection and reporting* document provides guidance for completing the return.

Where data are included in the annual public library actuals return to CIPFA, the same figure should be used for this return.

Only those cells where data are required can be selected; other areas of the return are shaded. The tab key can be used to move to the next available cell.

MALD reserves the right to request evidence of the information provided in the return to assist with the assessment process.

Context

This sheet requires some descriptive details for the authority, and contact details for the person to whom any queries should be addressed.

Core entitlements

This sheet deals with the 12 core entitlements for the public. Authorities should select their (self-assessed) level of compliance from the drop-down box, and provide further information in the space provided.

Quality indicators

This sheet covers the 16 public library standard quality indicators. For some indicators authorities are required to enter the raw data from which quantitative standards are derived; calculation will then take place automatically.

